Arolygiaeth Prawf EF

# Safonau arolygu ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

Chwefror 2025 v5.9

# Cyflwyniad

Yn ein rhaglen arolygu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, ceir dau fath o arolygiad.

Yn ystod Arolygiad o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (IYJS), rydym yn arolygu ac yn sgorio'r gwasanaeth yn erbyn ein holl safonau ar draws maes un, maes dau a safon y dioddefwyr.

Yn ystod Arolygiad o Waith Cyfiawnder Ieuenctid gyda Phlant a Dioddefwyr (IYJWCV), rydym yn arolygu ac yn sgorio'r gwasanaeth yn erbyn safonau maes dau a safonau dioddefwyr; ac rydym yn archwilio trefniadau a gweithgarwch sefydliadol o safbwynt yr effaith ei gwaith gyda phlant a dioddefwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen arolygu cyfiawnder ieuenctid, y mathau o arolygiadau, a'r sgoriau, ar gael ar ein gwefan:

Ein gwaith (justiceinspectorates.gov.uk)

# Maes un: darpariaeth sefydliadol

**Mae’r maes hwn yn ymdrin â’r trefniadau a’r gweithgareddau sy’n cefnogi holl feysydd gwaith Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) gyda phlant, gan gynnwys datrysiadau y tu allan i’r llys, datrysiadau yn y llys, gwaith oedolyn priodol, mechnïaeth a remánd, ac ailsefydlu. Mae’r safonau hyn yn cael eu harolygu a’u sgorio mewn Arolygiadau o’r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.**

## *1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth*

***Mae llywodraethu ac arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn sbarduno gwasanaeth o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.***

**1.1.1 A yw trefniadau strategol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn sbarduno gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?**

a) A yw bwrdd rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gosod y cyfeiriad a’r strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan ei alluogi i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?
b) A oes trefniadau llywodraethu effeithiol a chynlluniau cyflawni clir sy’n galluogi ymarfer perthynol a gwaith effeithiol sy’n seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant?
c) A yw bwrdd rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu egluro unrhyw anghymesuredd ac a yw wedi cymryd camau digonol i fynd i’r afael â hyn?
d) A yw bwrdd rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dadansoddi ac yn defnyddio barn plant a rhieni a gofalwyr, ac yn eu defnyddio yng ngweledigaeth a strategaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid?
e) A yw bwrdd rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol a phartneriaid anstatudol ar y lefel gywir lle byddai’r rhain yn ychwanegu gwerth?
f) A yw aelodau bwrdd rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymgysylltu’n dda ac yn weithgar yn eu cyfraniad at gyflawni newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?
g) A yw bwrdd rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn deall ac yn herio data a gwybodaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ddigonol?
h) A yw partneriaethau strategol lleol perthnasol eraill yn rhoi blaenoriaeth i weithio i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?
i) A yw’r gweithgareddau a threfniadau strategol, a’u heffaith ar y ddarpariaeth, yn cael eu monitro a’u hadolygu’n rheolaidd?

**1.1.2 A yw tîm arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn sbarduno gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?**

a) A yw tîm arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn darparu cyswllt effeithiol â Bwrdd Rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid?

b) A yw trefniadau partneriaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ei alluogi i ddarparu gwaith gweithredol effeithiol i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?
c) A yw tîm arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cyflawni ac yn gweithredu'r weledigaeth a'r strategaeth briodol i oedolion yn llwyddiannus?
d) A yw tîm arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ceisio, yn dadansoddi ac yn defnyddio barn plant, rhieni a gofalwyr?
e) A yw tîm arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu egluro unrhyw anghymesuredd ac a yw wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael â hyn?
f) Ydy staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn trefniadau'r bartneriaeth, a'r hyn y maent yn atebol amdano?
g) A yw'r polisïau angenrheidiol yn eu lle ac yn cael eu deall gan y rhai hynny y maent yn berthnasol iddynt?

**1.1.3 A yw tîm arwain y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymgysylltu'n weithredol â staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

a) A yw diwylliant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol a chynnig syniadau?
b) A yw'r staff yn ymgysylltu'n dda ac yn llawn cymhelliant?
c) Ydy barn staff yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a'i defnyddio i adolygu a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau?
d) A yw rheolwyr yn cydnabod ac yn gwobrwyo gwaith eithriadol yn deg?
e) A roddir sylw priodol i ddiogelwch a llesiant staff, yn ogystal â meithrin gwydnwch staff?
f) A oes cefnogaeth i staff os ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu'n profi unrhyw fath o wahaniaethu?
g) A oes proses glir a dealladwy ar gyfer cwynion gan staff?
h) A oes proses glir a dealladwy ar gyfer cwynion gan blant, rhieni a gofalwyr?
i) A yw arweinwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn deall ac yn hyrwyddo diwallu anghenion amrywiol, gan gynnwys yr angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer staff yn unol â nodweddion gwarchodedig?

**1.1.4 A yw arweinwyr yn defnyddio dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu i sbarduno gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol a diogelwch ar gyfer plant a chymunedau?**

a) A yw polisïau'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ymateb i newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth a rhoi sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?
b) A yw'r ddarpariaeth o wasanaethau partneriaeth yn cael ei lywio gan fonitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd a chadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys adolygiad o'r effaith ar grwpiau amrywiol?
c) A yw cynlluniau gwella gwasanaeth yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ymateb i newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth?
d) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys y defnydd o ddata a gwybodaeth, ac a yw wedi'i lywio gan fewnbwn angenrheidiol o asiantaethau eraill, gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau y tu allan i'r llys, ar ôl y llys, mechnïaeth a remánd, oedolion priodol ac ailsefydlu?

e) A yw’r gwerthusiad yn cynnwys ystyriaeth weithredol i faterion sy’n ymwneud ag amrywiaeth?
f) A yw systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad yn ysgogi gwelliant?
g) A yw’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dysgu’n systematig ac yn cyfathrebu’n effeithiol pan fydd pethau’n mynd o chwith, gan gynnwys digwyddiadau difrifol?

## *1.2 Staff*

***Mae staff wedi’u galluogi i ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau’n ddiogel.***

### 1.2.1 A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?

a) A yw lefelau staffio’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ddigonol?
b) A oes gan ymarferwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lwyth gwaith y gellir ei reoli, o ystyried eu llwyth gwaith a’r ystod o waith a wneir?
c) A oes gan arbenigwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lwyth gwaith y gellir ei reoli, o ystyried eu llwyth gwaith a’r ystod o waith a wneir?
d) A oes gan staff cymorth lwyth gwaith y gellir ei reoli, sy’n eu galluogi i gefnogi gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol?
e) A oes gan arweinwyr a rheolwyr lwyth gwaith y gellir ei reoli?
f) A yw llwyth gwaith yn cael ei reoli’n weithredol, gydag adnoddau’n cael eu symud, pan fo hyn yn rhesymol ac yn angenrheidiol, mewn ymateb i bwysau lleol?

### 1.2.2 A yw sgiliau a phroffil staff yn cefnogi’r dasg o ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?

a) A yw’r gweithlu’n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn ddigonol?
b) A yw sgiliau ac amrywiaeth y gweithlu’n diwallu anghenion plant?
c) A yw gwaith â phlant yn cael ei dyrannu i staff sydd â’r cymwysterau a/neu’r profiad priodol?
d) A yw anghenion dysgu’r staff yn cael eu nodi a’u diwallu?
e) A yw diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo?
f) A yw potensial staff yn cael ei nodi a’i ddatblygu?

### 1.2.3 A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi’r ddarpariaeth o wasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau’n ddiogel?

a) A oes rhaglen gynefino effeithiol yn cael ei darparu i staff newydd sy’n rhoi sylw i faterion sy’n ymwneud ag amrywiaeth ac sy’n hygyrch i bawb?
b) A yw staff yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac sy’n eu cefnogi, ac yn eu galluogi i fabwysiadu dull perthynol o weithio gyda phlant?
c) A oes trefniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio'r rheolwyr er mwyn gwella a chynnal ansawdd y gwaith gyda phlant?
d) A yw’r broses arfarnu’n cael ei defnyddio’n effeithiol i sicrhau bod staff yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel?
e) A yw perfformiad staff gwael yn cael ei nodi ac yn cael sylw?

f) Lle defnyddir gwirfoddolwyr a mentoriaid, a ydynt yn cael eu cefnogi i gyflawni rolau sydd wedi'u diffinio'n glir?

## *1.3 Partneriaethau a gwasanaethau*

***Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau ymatebol a phersonol o ansawdd uchel ar waith, gan gyflawni newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.***

**1.3.1 A oes dadansoddiad cyfredol a cynhwysfawr o broffil plant gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a ddefnyddir ganddo i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n dda?**

a) A oes yna ddadansoddiad cyfredol o anghenion pob plentyn?
b) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau sy'n ymwneud â sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?
c) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd?
d) A oes dadansoddiad digonol o batrymau lleol o ran dedfrydu, mathau o droseddau a defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys?
e) A yw'r dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sbarduno'r ddarpariaeth o wasanaethau?
f) A yw'r dadansoddiad yn cynnwys barn plant, rhieni a gofalwyr am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn?

**1.3.2 A yw partneriaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn darparu'r nifer, yr amrywiaeth a'r ansawdd o wasanaethau ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn?**

a) A oes trefniadau effeithiol i sicrhau mynediad at y gwasanaethau ac ymyriadau arbenigol, prif ffrwd a dilynol priodol i ddiwallu anghenion pob plentyn?
b) A yw gwasanaethau ar gael yn amserol i bob plentyn?
c) A yw adeiladu ar gryfderau, canolbwyntio ar y dyfodol a gwella gwydnwch yn ganolog i'r ddarpariaeth o wasanaethau?
d) A yw gwasanaethau i blant yn cael eu darparu mewn mannau diogel?
e) A yw gwasanaethau i blant yn cael eu darparu mewn mannau hygyrch?
f) A yw amgylcheddau cyflenwi yn golygu bod modd gwneud gwaith priodol sy'n seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi'i bersonoli?
g) A yw ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol yn yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir?

**1.3.3 A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau ymatebol a phersonol o ansawdd uchel?**

a) A oes trefniadau cydweithio effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau newid cadarnhaol i bob plentyn?
b) A oes trefniadau cydweithio effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau diogelwch plant a chymunedau?
c) A oes trefniadau effeithiol ar gyfer y darpariaeth o oedolion priodol?
d) A oes trefniadau wedi'u gwneud ac wedi'u deall gan staff i sicrhau bod plant yn cael eu cyfeirio, eu hatgyfeirio a'u cefnogi i'r gwasanaethau mwyaf priodol yn weithredol?

e) A oes protocol clir ar y cyd ar waith gyda'r heddlu, sy'n nodi polisi ac arferion datrysiadau y tu allan i'r llys y cytunwyd arnynt yn lleol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd ac y gellir eu hamddiffyn?
f) A yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnwys proses uwchgyfeirio sy'n osgoi gorddefnyddio datrysiadau penodol yn amhriodol?
g) A oes trefniadau addas ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd y tu allan i'r llys sy'n cynnwys cyfraniadau gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, yr heddlu a gofal cymdeithasol o leiaf?
h) A yw'r llysoedd yn ddigon ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi opsiynau dedfrydu?

# Maes dau: gwaith gyda phlant

**Mae'r maes hwn yn ymdrin â'r gwaith gyda phlant ar draws holl darpariaeth y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys datrysiadau y tu allan i'r llys, datrysiadau yn y llys, mechnïaeth, a remánd ac ailsefydlu.**

**Caiff y safonau hyn eu harolygu a'u sgorio yn Arolygiad o Waith Cyfiawnder Ieuenctid gyda Phlant a Dioddefwyr (IYJWCV) ac Arolygiad o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (IYJS).**

## *2.1 Asesu*

***Mae asesu yn seiliedig ar wybodaeth ac yn bersonol, gan ddadansoddi'n effeithiol sut i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.***

**2.1.1 A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?**

a) A yw asesu yn dadansoddi cyd-destun y plentyn, gan gynnwys yr amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach?
b) A yw asesu yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?
c) A yw asesu yn cynnwys cyfranogiad gweithredol a chyd-gynhyrchu gyda'r plentyn?
d) A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol a ellid gwneud gwaith ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn, a fyddai'n sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?
e) A yw asesu yn dadansoddi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn gan gynnwys y ffactorau strwythurol allweddol sy'n effeithio ar y plentyn?
f) A yw asesu yn dadansoddi'r gallu ar gyfer newid, cyfranogiad, ac integreiddio cymunedol?
g) A yw asesiad yn adnabod ac yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?
h) A yw asesu yn dadansoddi agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn o fewn cyd-destun y plentyn?
i) A yw asesu yn ymateb i newid, gan gynnwys sicrhau trefniadau effeithiol parhaus i reoli'r materion hynny sydd wedi cael eu nodi er mwyn sicrhau newid cadarnhaol?

**2.1.2 A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?**

a) A yw asesu'n nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn?
b) A yw asesu yn nodi'n glir ac yn dadansoddi'r hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch pobl eraill, gan ystyried risgiau'n ddigonol?
c) A yw asesu yn nodi ac yn dadansoddi'n ddigonol materion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio?
d) A yw'r asesu yn ymgorffori anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?
e) A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol a ellid gwneud gwaith ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn a fyddai'n cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?
f) A yw asesu yn ymateb i newid, gan gynnwys sicrhau trefniadau effeithiol parhaus i reoli'r materion hynny a nodwyd er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned?

## *2.2 Cynllunio*

***Mae gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, gan ganolbwyntio ar sut i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.***

**2.2.1 A yw gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?**

a) A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i gyd-destun y plentyn, gan gynnwys amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?
b) A yw gwaith cynllunio yn cynnwys cyfranogiad gweithredol a chyd-gynhyrchu gyda'r plentyn?
c) A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, gan gynnwys y ffactorau strwythurol allweddol sy'n effeithio ar y plentyn ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain er mwyn meithrin gwydnwch?
d) A yw gwaith cynllunio yn creu cyfleoedd ar gyfer newid, cyfranogiad ac integreiddio cymunedol?
e) A yw gwaith cynllunio yn cynnwys ac yn ystyried holl ffactorau amrywiaeth y plentyn yn ddigonol?
f) A oes digon o gynllunio ar gyfer darpariaeth gyda gwasanaethau eraill, gan gynnwys cynllunio ar gyfer gadael ac atgyfeiriad at wasanaethau prif ffrwd?
g) A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i allu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen?
h) A yw gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn o fewn cyd-destun y plentyn?

**2.2.2 A yw gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?**

a) A yw gwaith cynllunio yn nodi sut mae sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn fel sylfeini ar gyfer newid?
b) A yw gwaith cynllunio yn nodi'r hyn sydd ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel, gan roi digon o sylw i'r risgiau?
c) A yw gwaith cynllunio yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio?

d) A yw gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol?
e) A yw gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?
f) A yw gwaith cynllunio yn nodi sut y bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel?
g) A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i'r amserlenni sydd ar gael, gan gydlynu â gwaith cynllunio unrhyw asiantaethau eraill a'r angen am ddilyniant?
h) A yw gwaith cynllunio yn ymateb i newid, gan gynnwys sicrhau trefniadau effeithiol parhaus i reoli'r materion hynny sydd wedi cael eu nodi?

## *2.3. Darpariaeth*

***Mae gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan gyflawni newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.***

### 2.3.1 A yw darparu gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?

a) A yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas waith gyda'r plentyn, gyda'i gyfranogiad gweithredol, sy'n annog ac yn galluogi ymgysylltu?
b) A yw darpariaeth yn rhoi digon o sylw i gyd-destun y plentyn, gan gynnwys amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?
c) A yw darpariaeth yn rhoi digon o sylw i gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, gan gynnwys y ffactorau strwythurol allweddol sy'n effeithio ar y plentyn ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain er mwyn meithrin gwydnwch?
d) A yw darpariaeth yn cyflawni cyfleoedd ar gyfer newid, cyfranogiad ac integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth?
e) A yw darpariaeth yn cynnwys ac yn ystyried holl ffactorau amrywiaeth y plentyn yn ddigonol?
f) A yw ymyriadau yn mynd i'r afael ag agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn o fewn cyd-destun y plentyn?
g) A yw gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cyd-fynd ac wedi'i gydlynu yn ddigonol â'r ddarpariaeth o wasanaethau eraill gan gynnwys cynllunio ar gyfer gadael ac atgyfeirio at wasanaethau cyffredinol?
h) A yw ansawdd y gwaith gyda'r plentyn yn cael ei adolygu a'i addasu lle bo angen?

### 2.3.2 A yw darparu gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?

a) A yw'r gwasanaethau cywir yn cael eu darparu i sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn fel sylfeini ar gyfer newid?
b) A yw gwasanaethau'n cael eu darparu ar y cyd â rhieni a gofalwyr y plentyn er mwyn diogelu ac amddiffyn y plentyn a'r gymuned?
c) A yw'r ddarpariaeth o wasanaethau yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio?
d) A yw'r gwasanaethau cywir yn cael eu darparu i gadw pobl eraill yn ddiogel, gan reoli risgiau'n ddigonol?

e) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl yn y ddarpariaeth o wasanaethau?
f) A yw'r ymyriadau a ddarperir yn rhoi digon o sylw i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant?
g) A yw darpariaeth yn ymateb yn effeithiol i newidiadau pan fo angen?
h) A yw ymgysylltu yn cael ei gefnogi'n effeithiol, gan gynnwys cymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol?

# Dioddefwyr

**Caiff y safon hon ei harolygu a'i sgorio yn Arolygiad o Waith Cyfiawnder Ieuenctid gyda Phlant a Dioddefwyr (IYJWCV) ac Arolygiad o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (IYJS).**

## *V1 Mae gwaith gyda dioddefwyr yn unigol, ymatebol ac o ansawdd uchel i ddioddefwyr gan yrru canlyniadau cadarnhaol a diogelwch i ddioddefwyr.*

### V1.1 A yw gwaith gyda dioddefwyr yn unigol, ymatebol ac o ansawdd uchel?

a) A yw dioddefwyr yn cael cymorth i wneud dewisiadau gwybodus am eu hanghenion, gan gynnwys unrhyw waith uniongyrchol gyda phlant?
b) A roddir gwybodaeth glir i ddioddefwyr am yr hyn y gallant ei ddisgwyl ar wahanol adegau yn ystod gwaith plentyn â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid?
c) A oes dealltwriaeth dda o anghenion unigol y dioddefwr?
d) A yw'r cymorth a gynigir yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y dioddefwr yn ddigonol?
e) A oes ymgysylltu effeithiol a meithrin perthynas â dioddefwyr sy'n galluogi cymorth unigol ac ymatebol a mynediad at wasanaethau?
f) A oes trefniadau a pherthnasoedd effeithiol gydag ymarferwyr ar draws y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i alluogi diwallu anghenion y dioddefwr?
g) A yw'r gefnogaeth a ddarperir yn diwallu anghenion y dioddefwr?

### V1.2 A yw trefniadau a gweithgarwch y sefydliad yn arwain at wasanaeth unigol, ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer dioddefwyr?

a) A yw aelodau'r bwrdd rheoli yn ymgysylltu'n dda ac yn weithgar yn eu cyfraniad at waith gyda dioddefwyr?
b) A oes trefniadau effeithiol ar waith gyda'r heddlu ar gyfer cael caniatâd a rhannu manylion y dioddefwr?
c) A oes polisi a phroses effeithiol ar waith ar gyfer darparu gwaith gyda dioddefwyr sy'n unigol, ymatebol ac o ansawdd uchel?
d) A oes gan staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr lwyth gwaith y gellir ei reoli?
e) A oes gan staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr y sgiliau cywir i ddarparu gwasanaeth unigol, ymatebol o ansawdd uchel i ddioddefwyr?
f) A yw staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu gwaith?
g) A oes ystod o gymorth a gwasanaethau ar gael, gyda phrosesau rheoli risg effeithiol ar waith?
h) A yw gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd?

i) A yw barn dioddefwyr yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a'i defnyddio i lywio gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr?